

Alex Swift (cyfwelydd)

Croeso. Dyma bodlediad y Gyfnewidfa. Dwi yma gyda Barry Braun a Ceri. Ydych chi eisiau esbonio pwy y'ch chi a beth y'ch chi'n ei wneud?

Barry Braun

Felly, Barry Braun ydw i a fi yw sylfaenydd y prosiect The Happy Community a'r syniad y tu cefn i'r prosiect The Happy Community yw y bydd angen cefnogaeth ar ein hwyrion ac arnom ni ac ar ein cymdogion wrth i'n byd ddatblygu a'r ffordd o gael y gefnogaeth honno yw trwy eu cymuned leol ac felly pan mae cymunedau wedi'u cysylltu'n gymdeithasol ac ag ymdeimlad cryf o berthyn a bod ganddyn nhw ddiwylliant o ofalu am eu gilydd, yna mae gennym ni le gwell i fyw ynddo.

Ceri Cunnington

Ie, yn debyg i Barri ond yng Ngogledd Cymru ac wedi fy lleoli yng Ngogledd Cymru ym Mlaenau-Ffestiniog ac rwy'n gweithio i fenter gymdeithasol o'r enw Cwmni Bro-Ffestiniog sy'n ymwneud â hunangymorth ac am rwydweithio, o fewn y gymuned a thu hwnt hefyd. Felly, er budd y gymuned honno, ein cymuned ni.

Alex Swift (Cyfwelydd)

Diolch i'r ddau ohonoch am y cyflwyniadau hynny. Mae gen i ddiddordeb mewn trafod y syniad o gymuned. Pa enghreifftiau y'ch chi wedi'u gweld o gymuned iach a hapus yn y gwaith y'ch chi wedi'i wneud a beth y gellir ei wneud i annog hynny ar raddfa ehangach?

Barry Braun

Wel, y'n ni'n cael ceisiadau gan bobl sy'n credu nad yw eu cymunedau'n iach iawn, a fel y'ch chi'n gwybod, fel arfer, mae pethau fel ymrannu neu bobl sydd ddim yn adnabod ei gilydd neu'n hiraethu, gan eu bod yn defnyddio'r ymadrodd 'y ffordd yr arferai pethau fod' yn aml a'r hyn y mae nhw'n ei olygu yw fod pobl bryd hynny yn adnabod ei gilydd.

Gallech chi alw draw am gwpaned o siwgr neu alw heibio am baned o de neu rywbeth heb drefnu mlan llaw ac mae nhw'n hiraethu am hynny i gyd. Felly, drwy'r prosiect The Happy Community, y'n ni wedi gallu gweithredu ar hynny, chi'n gwybod, i raddau helaeth. Y'n ni wedi gallu gweithredu ar hynny lle mae nhw'n wedi gallu dweud bod eu cymuned nhw wedi cysylltu yn fwy cymdeithasol, a bod gyda nhw ymdeimlad cryfach o berthyn a'u

bod nhw wedi datblygu diwylliant. Mae hynny'n cael ei roi ar waith drwy edrych ar ôl ei gilydd mewn ffordd gryfach nag yr on nhw'n arfer gwneud.

Ceri Cunnington

Ie, unwaith eto, byddwn i'n cytuno â Barri. Dwi'n credu'n bod ni'n lwcus iawn o'n tref a'n cymuned gan fod gyda ni draddodiad o hynny, a dydy o ddim yn ymddangos ein bod ni wedi colli hynny. Mae yn lleihau. Mae'n lleihau oherwydd pwysau'r byd y tu allan, os liciwch chi, y pwysau economaidd a phethau felly. Ond dwi'n credu bod y pandemig diweddar yn amlygu cryfder y gymuned y'n ni'n byw ynddi ac fel roedd Barri'n dweud am alw draw am gwpaned o siwgr neu baned o de y'n ni'n lwcus ac yn ffodus. Mae hynny'n digwydd yn barod a dydy o ddim wedi lleihau, ond yr hyn y'n ni'n ceisio gwneud yw adeiladu ar y diwylliant hwnnw o hunangymorth. Soniais yn gynharach am wydnwch ond sut y'n ni'n gallu defnyddio hynny, nid yn unig fel gwydnwch cymdeithasol ond troi hynny'n wydnwch economaidd hefyd? Felly, adeiladu ar gryfderau o helpu'n gilydd ac y'n ni'n dref sydd wedi ei disgrifio fel un ddifreintiedig yn economaidd a falle'n bod ni wedi cario hynny fel baich ar ein hysgwyddau'n rhy hir. Dywedwyd wrthyn ni bod ni ddim yn entrepreneuriaid, ond y'n ni yn entrepreneuriaid cymdeithasol ac mae traddodiad o hynny hefyd ac mae'n deillio o gydweithredu a chydweithio. Felly, y'n ni'n ceisio manteisio ar yr union beth yr oedd Barri'n ei ddweud. Yr ymdeimlad hwnnw o gymuned, a heb swnio'n rhy rhyfedd, mae'n gariad mewn gwirionedd. Y'ch chi'n gwybod pan fydd pobl yn siarad am gymuned, ei fod o'n gariad.

Barry Braun

Felly, dwi'n byw yn Nova Scotia Canada ac yng Ngogledd America mae gennyn ni ystadegyn trist yma sy'n dweud bod 75% o'r bobl sy'n byw yng Nghanaada ddim yn adnabod eu cymdogion, ychydig iawn o sgwrs sy rhyngddyn nhw os oes unrhyw sgwrs o gwbl a rôl prosiectau The Happy Community yw ceisio gwrthdroi'r duedd honno. Ac y'n ni wedi gallu datblygu prosesau y'n ni wedi gallu eu cymhwysu mewn sawl lle. Fel Ceri, y'n ni'n yn Nova Scotia, New Scotland, ac y'ch chi yng Nghymru, dwi'n cymryd Ceri, ond y'n ni'n dal i rannu rhai o'r un traddodiadau. Dyw e ddim wedi diflannu'n llwyr yma, ond y'n ni wedi mynd i lefydd lle mae'n ymddangos yn eithriadol ac yn anarferol i rywun wneud rhywbeth neis i'w cymydog. A dyna'r tueddiadau y'n ni'n gweithio arnyn nhw, felly y'n ni wedi gallu mynd â hyn i lawer o lefydd yn yr Unol Daleithiau, Canada a thramor i India, Uganda.

Ceri Cunnington

Ie, dydyn ni ddim yn mynd mor bell ag Uganda. Ond y'n ni'n gweithio gyda'n cymdogion yma ac y'n ni'n canfod nawr bod pobl yn dyheu am yr union beth roedd Barri'n crybwyll. Yr ymdeimlad hwnnw o gymuned, yr ymdeimlad hwnnw o gydweithio, dathlu. Ac ie, felly y'n ni'n gweithio gyda chymunedau lleol ac ar draws Cymru mewn gwirionedd. Dwi'n ceisio lledaenu'r neges hon.

Barry Braun

Mae hynny'n air da iawn gan 'mod i'n credu bod pobl yn dyheu a dwi'n meddwl bod COVID wedi'u helpu nhw i ddatblygu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cymuned yn eu bywydau.

Ceri Cunnington

Dwi'n cytuno, ond mae'n ymddangos fod yna ysfa nawr tuag at yr hen ffyrdd o ddatblygu economaidd a gobeithio'n bod ni wedi dysgu gwersi. Dwi'n credu bod cymunedau wedi dangos cryfder cymunedol yn ystod y cyfnod hwn. Ond yr hyn y'f fi'n canfod nawr yw 'mod i'n eitha' beirniadol bod ein llywodraeth ni, efallai, neu rai llywodraethau, heb wneud hynny. Ac y'n ni ddim yn dysgu o gamgymeriadau'r gorffennol yn yr ymgyrch hon tuag at dwf economaidd a phethau, dwi ddim yn siŵr.

Barry Braun

Dwi'n credu mai dyna'r agwedd yn gyffredinol, mai'r economi yw popeth. Ac yn anffodus, yr hyn y'f fi wedi sylwi arno ym maes datblygu economaidd yw eu bod nhw'n canolbwyntio ar ddatblygu entrepreneuriaid neu geisio dod o hyd i'r fuddugoliaeth fawr drwy gael rhyw gwmni mawr i symud i'r ardal, cytuno? A'r hyn y'n ni wedi canfod yw bod datblygu economaidd a gwead cymdeithasol yn mynd law yn llaw. Pan fyddwch chi'n creu amgylchedd cymdeithasol iach, mae busnes yn ymddangos.

Ceri Cunnington

Yn hollol, dwi'n credu bod Llywodraeth Cymru yn symud tuag at hynny yn ein llywodraeth leol, os hoffech chi, gyda'r economi sylfaenol ac yn edrych yn fwy manwl ar yr hyn ddywedoch chi, popeth ar wead cymdeithasol a'r pethau bob dydd yn ein bywydau. Ac yn lle'r buddsoddiad hwn mewn cwmnïau rhyngwladol sydd heb mewn gwirionedd – i ddefnyddio gair Cymraeg, sef Teyrngarwch - berthynas â'r dref honno, mae nhw ond yno

ar gyfer yr arian ac nid y gwead cymdeithasol os hoffech chi. Efallai 'mod i ychydig yn blasé. Dydy o ddim yn wir am bawb efallai, ond ie, dwi'n credu bod hynny'n wir ar y cyfan.

Barry Braun

Ie, crëwyd y prosiect The Happy Community mewn tref fach o'r enw Windsor, Nova Scotia a phan ddechreuon ni roedd yn dref yn marw. Dwi ddim yn siwr os mai marw yw'r gair cywir, ond roedd y dref yn dirywio'n bendant. Agwedd y bobl oedd ei bod yn dirywio, does dim byd yn digwydd yma, mae'n pobl ifanc ni'n gadael. Edrychwch ar yr holl fusnesau sy'n gadael ac roedd y busnesau'n gadael, a phan newidiodd eu hagwedd nhw, llenwodd y dref gan ddod yn gymuned fywiog unwaith eto. Ac mae llawer o'r diolch am hynny'n ymwneud â'r stori y mae nhw'n ei hadrodd eu hunain.

Ceri Cunnington

Yn hollol. On i'n darllen rhywbeth am hynny, y stori y'ch chi'n ei hadrodd i chi'ch hunan a'r meddylfryd hwnnw o dwf, ynde?

Alex Swift (Cyfwelydd)

Dwi'n credu bod hynny'n bwynt pwerus iawn gennych chi dyw e ddim gymaint o 'adeiladwch a bydd pobl yn dod'. Mae'n rhaid i chi roi rheswm iddyn nhw, yn enwedig yn yr oes ar-lein lle gallwch chi brynu popeth ar-lein. Mae'n rhaid cael rhywbeth sy'n unigryw am ganol dinasoedd i ddenu pobl yn y lle cyntaf.

Ceri Cunnington

Yr hyn sy'n unigryw am ganol dinasoedd neu ganol trefi yw perchnogaeth canol y dref honno. Y'ch chi'n gwybod bod o ddim bob amser yn ymwneud ag ymlediad. Mae'n ymwneud â rhyngweithio ac mae'n newid felly mae'r Stryd Fawr yn dod yn rhywle lle gallwch chi gael y gwasanaethau y'ch chi wir eu hangen, y pethau bob dydd, ond hefyd y pethau sy'n ymwneud â hyfforddiant ac efallai gofal. Y'ch chi'n gwybod nad oes rhaid iddo fod fel yr holl strydoedd mawr sgleiniog, sgleiniog hyn. Byddai neb o'n tref ni yn prynu teledu 34 neu 64 modfedd o Flaenau Ffestiniog, bydden nhw'n eu archebu dros y Rhyngrwyd felly pam ydyn ni?... does dim angen i ni gystadlu â phopeth. Mae'r We yma i aros, a byddwch chi wastad yn prynu eich sgrîn deledu enfawr oddi ar y We. Ond mae gyda ni rywbeth unigryw i'w gynnig yn y dref ac ie, y gymuned yw hyn unwaith eto.

Barry Braun

Mae perthynas gref rhwng y gymuned a busnes, mae pobl yn byw yn y gymuned ond mae busnes yn gweithredu yn y gymuned ac mae'r ffordd y mae nhw'n gweithredu yn y gymuned yn effeithio'n fawr ar natur y gymuned ac yn un o'r tueddiadau, dwi ddim yn gwybod os bod hyn yn wir yng Nghymru a Lloegr yn gyffredinol, ond un o'r tueddiadau yma yn Nova Scotia yw bod llywodraethau wedi torri'n ôl ar eu cefnogaeth gymdeithasol ac wedi creu mwy o ddibyniaeth ar sefydliadau nid-er-elw i ddarparu'r cymorth cymdeithasol hynny a'r person busnes lleol sy'n cyfrannu at hynny? Dim y busnes rhyngwladol yw hyn. Dyw Google ddim yn cyfrannu nicel i unrhyw gymuned fach o ran cymorth cymdeithasol nac Amazon ac nid yw'r busnesau cenedlaethol fel Walmart hyd yn oed sydd yn y gymuned yn cyfrannu trethi na rhoddion i'r sefydliadau nid-er-elw sy'n gweithredu yn y gymuned. Y dyn busnes lleol sy'n gwneud hynny.

Ceri Cunnington

Mae 80% o'n cymuned fusnes leol yn fusnesau sydd â llai na 10 o weithwyr. A busnesau bach ydyn nhw. Chi'n gwybod, yn ein tref ni, mae nhw'n gweithredu fel mentrau cymdeithasol. Mae nhw'n cyflogi'n lleol. Mae nhw'n gwario'n lleol. Mae nhw'n noddi'r tîm pêl-droed lleol, chi'n gwybod, does dim llawer o wahaniaethu rhwng y mentrau cymdeithasol a'r busnesau bach lleol sydd wedi'u gwreiddio mewn cymunedau.

Alex Swift (cyfwelydd)

O safbwynt economaidd, ydych chi'n credu bod angen i gymunedau gydbwyso ffyniant economaidd a'r hyn a elwir yn "llwyddiant" gyda'r angen i arian aros yn lleol ac ariannu'r math hwn o gynlluniau gwirfoddol a chynlluniau peilot?

Ceri Cunnington

Un o'n mentrau cymdeithasol ni yw prosiect twristiaeth gynaliadwy. Ni'n defnyddio arian a wneir gan dwristiaeth er mwyn buddsoddi'n ôl yn y gymuned. Mae'r elw a wneir gennym gan dwristiaid yn cael ei fuddsoddi'n ôl yn y gymuned. Ni'n gweld hynny ac yna gyda'r elw hwnnw y'n ni'n prynu asedau cymunedol lleol, adeiladau. Ni'n troi nhw'n lleoliadau manwerthu ar gyfer pobl ifanc a fflatiau uwchben lle gall pobl ifanc fyw os ydyn nhw'n dymuno gwneud. Ond ydy, mae'r cydbwysedd yn anodd iawn i'w daro weithiau ond dyma lle efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn dod mewn gyda buddsoddiad hefyd. Dwi'n credu bod llywodraeth Cymru dros y blynyddoedd wedi buddsoddi yn y manau anghywir. Ac mae'r model datblygu economaidd y'n ni eisoes wedi crybwyll, wedi bod yn fethiant, ond dwi'n credu'n gryf fod cyfle nawr. Dwi'n gwybod bod Llywodraeth Cymru yn parhau i sôn

am yr hyn y gellir ei gyflawni ar lefel Gymunedol drwy flaenoriaethu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, ond dylai hyn fod i'r gwrthwyneb. Beth allai Llywodraeth Cymru ei gyflawni drwy wrando ar flaenoriaethau'r gymuned? Dwi'n credu pe bai ni'n gallu newid, dwi'n credu y bydden ni'n eithaf llwyddiannus.

Barry Braun

Dyw'r ffocws ddim ar GDP, sef yr hyn y mae datblygiadau economaidd ddim yn gwerthfawrogi gwerthoedd cymunedol ac mae'n rhyfeddol pan fydd cymunedau'n ailffocysu ar eu hunain fel cymuned, faint mae nhw gallu cyflawni o ran economi leol ac ambell waith dyw'r economi leol hyn o reidrwydd yr hyn y mae'r llywodraeth yn ei hoffi am ei fod yn digwydd drwy gyfnewid nwyddau a gwasanaethau heb fynd drwy'r system ffurfiol, ond mae hefyd yn ei gwneud yn gynaliadwy yn gyffredinol o ran ein cymdeithas a'n byd sy'n brwydro gyda hyn ar hyn o bryd.

Ceri Cunnington

Onid yw Seland Newydd yn edrych ar rywbeth felly nawr? Onid ydyn nhw'n edrych ar sut y'ch chi'n mesur cyfoeth, sut y'ch chi'n mesur ffyniant? Nid yn unig yn ariannol.

Barry Braun

Dwi ddim yn gwybod am Seland Newydd, ond arweiniodd Bhutan y ffordd gyda'r Gross Happiness Index. Mae hyn gyda nhw yn y Cenhedloedd Unedig, a dwi'n gwybod fod rhai gwledydd wedi'i fabwysiadu, yn anffodus ddim yma yng Ngogledd America.

Ceri Cunnington

Wel, y'ch chi'n ymddangos yn ddigon hapus.

Barry Braun

Mae'n ymddangos i mi ei fod yn fesur llawer gwell o lwyddiant cymunedau achos os y'ch chi'n cymryd elfennau o'r hyn yw hapusrwydd, mae'n rhaid i bobl gael lloches a bwyd, felly mae hynny'n rhan o'r fformiwla hapusrwydd. Ond felly hefyd gysylltiad cymdeithasol. Felly hefyd wneud pethau i'n gilydd. Felly hefyd yr ymdeimlad o degwch. Dim bod un person yn cael yr holl gyfoeth a bod dim gen i. Felly hefyd ddiogelwch ac mae diogelwch yn dod o adnabod eich cymydog a phwy ydyn nhw. Felly, os y'ch chi'n defnyddio mynegai fel hyn, dwi ddim wedi'i weld yn cael ei ddefnyddio yn unman yma yng Ngogledd America ond dwi wedi clywed eu bod nhw yn ei ddefnyddio yn Lloegr i ddechrau gwneud

rhai o'u polisïau. Dwi ddim yn gwybod pa mor wir yw hynny, ond dwi wedi clywed straeon am hynny.

Ceri Cunnington

Dwi ddim yn ymwybodol ohonyn nhw yn Lloegr, ond mae gyda ni gyfraith o'r enw Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n mesur gwahanol egwyddorion a blaenoriaethau rhwng yr amgylchedd, hapusrwydd, ac mae hynny'n gyfraith dda iawn, ond dwi ddim yn gwybod faint o sylwedd sydd ganddi ar hyn o bryd. Rhaid i bob gwasanaeth cyhoeddus a busnes gadw at y gyfraith hon, sef, bod yn rhaid iddyn nhw ystyried hapusrwydd cymunedau a'r amgylchedd wrth ddatblygu prosiectau. Mae hynny'n gam da ymlaen, ond mae'n mynd i gymryd amser i setlo dwi'n meddwl.

Barry Braun

Mae hynny'n tueddu i fod yn heriol iawn i lywodraethau yn gyffredinol oherwydd bod ganddyn nhw feddwl rhy syml o lawer. Dyw hi ddim yn ymddangos fel eu bod nhw'n ymdrin â chymhlethdod yn dda iawn. Mae'n ymwneud â phroblem gwleidyddiaeth un mater y mae nhw'n ceisio'i datrys. P'un a yw hyn yn gaethiwed mewn cymunedau neu yn ddiweithdra neu beth bynnag, mae popeth yn canolbwyntio ar un peth pan fod cymunedau'n ddeinamig neu'n sefydliad sy'n integreiddio â'i gilydd. Chi'n gwybod, mae popeth yn effeithio ar bopeth arall.

Ceri Cunnington

Ie, yn hollol. Ni'n ei alw'n Bara brith sydd fel bara pwdin. Mae'r gwahanol gynhwysion gyda ni, syltanas, rhesins, popeth ond mae angen yr holl gyfuniadau gwahanol hyn arnoch chi i wneud y bara perffaith.

Alex Swift (Cyfwelydd)

Mae COVID wedi bod yn gyfrifol am sawl un o'r materion y'n ni'n eu trafod? Achos y'ch chi wedi gweld problemau gydag iechyd meddwl pobl. Mae angen i bobl gadw llygad ar ei gilydd ac mae hynny'n pwysleisio'r gwir angen am gymuned. Felly, fy nghwestiwn i chi yw, sut y'ch chi'n meddwl bod y coronafeirws wedi effeithio ar ymdrechion eich cymuned i greu'r ymdeimlad hwnnw o gyd-dynnu wrth symud ymlaen a sut y'ch chi'n meddwl y gall y pandemig eich chi helpu gyda hynny mewn ffordd gadarnhaol?

Ceri Cunnington

Fe amlygwyd, fel nes i sôn yn gynt, gryfderau ein cymuned mewn gwirionedd ac roedd hyn yn codi calon, ond hefyd, chi'n gwybod, dwi'n credu fod dwy fenter gymdeithasol newydd wedi'u creu sydd bellach yn dal i fod yn gynaliadwy o gylch bwyd, bwyd lleol, cynnyrch ac un o gylch cymorth cymunedol. Dwi'n credu bod tair neu bump o swyddi newydd wedi'u creu o fewn ein mentrau sydd yn gynaliadwy. Ond fe gynhalion ni rywfaint o ymchwil yn ystod y pandemig, rhywfaint o ymchwil cymunedol. Mae tua 4000 o bobl yn ein tref ni ac roedd tua 410 wedi ateb yr ymchwil, ond yr hyn a welon ni o'r ymchwil honno oedd bod dim llawer o bobl yn poeni am eu dyfodol economaidd yn ystod y pandemig. Roedden nhw'n poeni mwy am eu cymydog. Roedden nhw'n poeni mwy am gefnogi ei gilydd a daeth hynny'n glir drwy'r ymchwil. Felly, on ni'n gallu defnyddio hynny, a nawr y'n ni'n ceisio dangos ei fod yn debyg i bopeth y'n ni wedi trafod yma am bwysigrwydd cymuned ac oedd hynny'n glir iawn. Dim ond hyn a hyn y'n ni'n gallu gwneud. Gallen ni wneud llawer fel cymunedau, ond mae angen cefnogaeth y llywodraeth, yr Awdurdod lleol, yr asiantaeth arnom am eu bod nhw'n dal rhai o'r lifers. Ni'n dal llawer ohonyn nhw, ond mae nhw'n dal rhai ohonyn nhw o ran buddsoddi ac ati. Buddsoddiad pellach.

Barry Braun

Ie, dwi'n cytuno. Pan ddechreuon ni'r prosiect The Happy Community, dywedon ni bod dim "dylen nhw" dim ond "dylen ni" heblaw eu bod nhw'n dal i ymddangos. 'Nhw' yw'r llywodraeth, yn ymyrryd ond dim bob amser mewn ffordd adeiladol. Ond, sylwais i er mwyn ateb eich cwestiwn, sylwais fod ymadrodd cyffredin sy'n ymddangos yn sgil COVID, yma lle dwi'n byw beth bynnag, sef, 'Dwi i ddim yn gwybod os dwi'n gwybod sut i gymdeithasu erbyn hyn'. Mae yna bobl sy'n nerfus neu'n bryderus eu bod nhw wedi colli eu sgiliau cymdeithasol, gan ddysgu sut i gael sgysiau cyffredin gyda phobl achos bod nhw heb gael y sgysiau hyn ers blwyddyn a hanner, fwy neu lai. Dwi'n meddwl, dyw hi ddim yn gwbl wir felly, ond mae'n ymadrodd cyffredin dwi i wedi clywed gan nifer o bobl dwi i ddim yn gwybod os dwi'n gwybod sut i gymdeithasu erbyn hyn ac mae nhw'n ei chael hi'n anodd ail-ddysgu sut i wneud hynny.

Ceri Cunningham

Mae hynny'n wir. Y'n ni'n canfod hynny'n aml gyda phobl ifanc ac y'n ni'n gwneud pethau fel... mae na 'buzzword' go iawn yma - rhagnodi cymdeithasol. Felly pan mae pobl yn teimlo'n isel neu â phroblemau iechyd meddwl, yn lle rhagnodi cyffuriau iddyn nhw, y'n ni'n cynnig gweithgareddau awyr agored a chymdeithasu'n araf, coginio yn y goedwig, y math hynny o bethau. Felly mae hynny'n rhywbeth y'n ni wir ... a rhywbeth sy'n

wirioneddol yn, ailgysylltu. Defnyddio'r gymuned i ailgysylltu ac nid o reidrwydd negeseuon gan y llywodraeth neu beth bynnag.

Alex Swift (Cyfwelydd)

Gan symud ymlaen at fath gwahanol o argyfwng sydd ar y gorwel, beth yn eich barn chi yw cyfrifoldeb cymunedau ac awdurdodau lleol o ran meithrin cynaliadwyedd amgylcheddol?

Ceri Cunnington

Y'n ni ond yn gallu gwneud yr hyn y'n ni yn gwneud. Dwi'n credu, chi'n gwybod, y pethau bagiau plastig a'r pethau dŵr a'r pethau ailgylchu yw'r hyn y'n ni'n gallu gwneud. Ond gallwn ni hefyd ddangos - dwi'n hoffi'r syniad hwn o drefi 15 munud, pentrefi 15 munud. Lle mae pob gwasanaeth o fewn 15 munud, felly does dim rhaid i chi ddefnyddio'ch car chi gymaint. Unwaith eto, y'n ni'n dychwelyd at lai o ddibyniaeth ar geir fel bod eich gwasanaethau'n agos iawn, eich adloniant yn agos. Dwi'n meddwl y bydd yn rhaid i ni fyw fel hyn am gyfnod. Iawn, mynd ar wyliau unwaith neu ddwywaith y flwyddyn. Efallai y byddech chi'n rheoleiddio hynny. Pan nad oedd awyrennau yn hedfan uwchben roedd yn nefoedd, chi'n gwybod. Dwi ddim eisiau gor-ramantu COVID ond ar ddechrau Covid fe stopiodd y byd am funud ac roedd e'n nefoedd gan fod yr adar yn dod nôl, roedd natur yn dod nôl. Ac roedd pobl yn helpu ei gilydd fel bo ni ddim, a bod yn gwbl onest, y'n ni ond yn gallu gwneud yr hyn y'n ni yn gwneud. Gallwn ni weiddi a sgrechian, rhoi pethau ar waith ac mae gennym gymaint o adnoddau naturiol lle y'n ni'n byw. Hydro, gwynt. Bydd 'na bethau llanw. Ond mae'r seilwaith y'n ni'n ei gynhyrchu... mae ein hardal yn cynhyrchu 120% o'r ynni sy'n angenrheidiol a hynny drwy sgriniau dŵr bach. Ond mae hynny eto i gyd yn cael ei dynnu o'r ardal. Y'n ni ond yn gallu gwneud yr hyn y'n ni yn gwneud, ond ar ddiwedd y dydd mater i'r llywodraeth a deddfwriaeth yw hyn, dwi'n meddwl.

Barry Braun

Dw i'n mynd i gytuno yma hefyd. Pan fyddwch chi'n byw mewn cawl, mae'n anodd iawn nofio o'r cawl. Y'ch chi yn y cawl go iawn? A'r llywodraeth sy'n gwneud y cawl. Nhw sy'n gosod naws pethau ac mae'n anodd iawn. Ond wedi dweud hynny, dwi'n credu y gall pobl wneud pethau unigol, felly yma mae gennym ni gymunedau sydd wedi sefydlu eu ffermydd gwynt eu hunain i gynhyrchu trydan lleol. Felly mae'r rheini'n bethau cymunedol, ond dydyn nhw ddim ar wasgar yma oherwydd y cawl. Mae 'na ambell i fwllch. Ychydig

iawn. Mae tair cymuned yn Nova Scotia sydd wedi gallu dod o hyd i ble mae'n nhw'n gallu gwneud hyn, ond mae gweddill y cymunedau wedi'u rhwystro rhag gwneud pethau fel hyn oherwydd y cawl. Dwi'n credu hefyd, ei fod yn mynd nôl i'r stori hon y'n ni'n dweud wrth ein hunain ac os y'n ni'n dweud bod dim y'n ni'n gallu gwneud neu 'dyw'r hyn dwi'n ei wneud ddim yn bwysig' yna mae hynny'n effeithio ar bethau a dwi'n credu y gall pobl yn lleol gyfrannu. Dydyn ni ddim yn mynd i wneud gwahaniaeth enfawr yn eu cymunedau lleol, ond pan fydd yr holl gymunedau lleol ym mhobman yn gwneud y pethau hyn, mae yn gwneud gwahaniaeth.

Ceri Cunningham

Dwi'n credu bod neges y stori y'n ni'n ei hadrodd i ni'n hunain yn wirioneddol bwysig, a dwi'n credu ei bod yn un y'f fi'n adnabod yn ein cymuned, ond hyd yn oed fel Cymru gyfan y'n ni bob amser wedi gweld ein hunain fel gwlad sydd ddim yn flaengar, ddim yn ddigon uchelgeisiol, ddim yn bwysig achos bod gyda ni'r cymydog hwn sydd mor bwerus ac mor flaenllaw fel ein bod ni wastad wedi bod yn ei gysgod. Ond dwi'n credu mai ni yw un o'r entrepreneuriaeth fwyaf cymdeithasol. Mae gennym y potensial anhygoel hwn fel gwlad, ond fel cymunedau ac yna fel gwlad.

Alex Swift (Cyfwelydd)

Sonloch chi am y straeon y'n ni'n eu hadrodd i ni'n hunain. Pa mor bwysig y'ch chi'n meddwl yw addysg a straeon o ran y ffordd y mae pobl yn gweld ac yn ymddwyn tuag at eu cymunedau?

Ceri Cunningham

Yn gwbl hanfodol o'n safbwynt i. Mae'r ysgol yn rhan o'n rhwydwaith ni o fentrau. Y'n ni'n mynd i'r ysgol ac yn adrodd straeon am yr hyn sy'n digwydd yn y gymuned. Chi'n gwybod, dyw hanes lleol ddim yn rhan o'r cwricwlwm felly dyw straeon lleol ddim yn cael eu hadrodd yn ddigon aml, ond mae prifathro'r ysgol leol a'r ysgolion cynradd yn rhan o'n gwaith ni. Unwaith eto, dwi'n dod yn ôl, y'n ni'n gymuned fach felly y'n ni'n eithaf ffodus gan fod pawb yn 'nabod ei gilydd. Ond ie, yr holl beth hwnnw, y'n ni'n datblygu cyrsiau datblygu cymunedol nawr i bobl ifanc, felly y'n ni'n mynd i dreialu'r rhain fis Medi lle mae pobl ifanc yn cael cyfle i ailgysylltu gyda'u cymuned. Chi'n gwybod, mae'r gwasanaeth ieuencid wedi'i ddiarhysio. Unwaith eto, yn debyg i'r hyn yr oedd Barri'n ei ddweud dyw'r llywodraeth ddim yn buddsoddi mewn gwaith ieuencid, felly mae'n rhaid i ni ymgymryd â hynny sy'n iawn pe baen ni'n cael yr adnodd o ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc.

Barry Braun

O safbwynt prosiectau'r The Happy Community, ein llwyddiant ni mewn gwirionedd yw pan fydd cymuned yn newid ei stori o'r tu mewn allan, nad oes stori'n cael ei rhoi iddyn nhw i'w hadrodd, 'dyma'ch stori chi'. Ond yn lle hynny, drwy'r broses dros nifer o fisoedd, y'n ni'n dechrau clywed nhw'n adrodd stori wahanol amdanyn nhw eu hunain. Gwir fesur llwyddiant yw pan fyddwn ni'n gallu creu amgylchedd ar eu cyfer neu eu helpu. Y'n ni ddim mewn gwirionedd yn gwneud unrhyw beth. Y'n ni'n galluogi pobl yn y gymuned i wneud pethau felly pan fydd y bobl yn y gymuned yn gallu creu amgylchedd ar eu cyfer nhw'u hunain, bod stori newydd yn dod i'r amlwg o'r gymuned. Dyna ein prif fesur ni o lwyddiant.

Ond i ni yma yng Nghanada hefyd a dwi'n siŵr eich bod chi wedi clywed rhywfaint am hyn yn y newyddion am ei fod wedi gwneud y newyddion rhyngwladol. Mae ein cymuned Cenhedloedd Cyntaf wedi bod yn ceisio adrodd stori ers talwm a doedd neb yn gwranddo arni tan yn sydyn iawn mae beddau torfol yn cael eu canfod o blant ifanc Indiaidd sydd wedi cael eu trin yn wael iawn. Ac felly, un o'r pethau y mae'r prosiect The Happy Community yn ei wneud yw gweithio gydag un o bobloedd y Cenhedloedd Cyntaf, eu helpu nhw i lunio'r stori a'i hadrodd i'r byd. Ac yn y bôn mae dau edefyn i hyn. Mae yna un - stori'r dyn gwyn, ar gyfer stori sy'n mynd allan i'r oedolion i greu ymwybyddiaeth o beth yw'r gwirionedd am y mythau y'n ni wedi'u creu am bersoniadau pobl, ac yna'u gwahodd i fod yn gyfeillion gyda phobl y Cenhedloedd Cyntaf. Yr ail beth y'n ni'n ei wneud yw gweithio gyda dwy fenyw ifanc iawn, 17 oed Cenedl Gyntaf sy'n creu straeon i wahodd yr ieuenctid sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu gwreiddiau fel pobl y Cenhedloedd Cyntaf a'u dwyn yn ôl i'w diwylliant sylfaenol.

Ac felly ie, stori yw popeth. Y'n ni fel pobl yn adrodd straeon i ni'n hunain drwy'r amser amdanom ni'n hunain ac yna y'n ni'n gweithredu yn ôl y straeon hynny. Mae gennym system gred, ac adlewyrchir y system gred yn y straeon a adroddir gennym, ac mae'n rheoli ein hymddygiad. A phan fyddwn ni'n symud ein stori, yna y'n ni'n ymddwyn yn wahanol. Felly, mae stori'n sylfaenol i bopeth a wnawn. A gallwch chi edrych ar eich hunan i weld bod hynny'n wir. Pa stori y'ch chi'n ei hadrodd i chi'ch hunan? Ac yna edrychwch ar eich ymddygiad a gweld sut mae'n gyson â'r stori y'ch chi'n ei hadrodd i chi'ch hunan. Pan fydd y stori honno y mae pobl yn ei hadrodd i'w hunain yn cynnwys y syniadau, ein bod wedi'n cysylltu'n gymdeithasol, yn perthyn, ac yn ofalgar ar draws amrywiaeth, yna mae'r sylfaen gyda ni ar gyfer bod yn hapus. Y'n ni yn hapus.